Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Nant Caerau
# Caerau Lane
# Trelai
# Caerdydd
# CF5 5QZ

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/07/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg yw ysgol Nant Caerau, sy’n gwasanaethu ardaloedd Caerau a Chroes Cwrlwys yng Nghaerdydd. Mae rhai disgyblion o ardaloedd Trelai a’r Tyllgoed yn mynychu’r ysgol hefyd. Disgrifir yr ardal fel un sydd, ar y cyfan, dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae 45.8% o’r disgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Sefydlwyd yr ysgol yn wreiddiol ym Medi 2007 fel dosbarth cychwynnol Cefn Coed. Ym mis Medi 2010 symudodd y dosbarth cychwynnol i’r safle presennol yng Nghaerau a’i sefydlu fel ysgol annibynnol. Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn rhannu adeilad a safle gyda dau ddosbarth o ysgol cyfrwng Saesneg gyfagos. Ym mis Gorffennaf 2012, daw’r safle cyfan i ofal Ysgol Nant Caerau.

Mae 86 o ddisgyblion amser llawn o oed derbyn hyd at Flwyddyn 4 yn yr ysgol, a 32 o ddisgyblion meithrin rhan amser. Cânt eu haddysgu mewn pum dosbarth. Rhagwelir twf sylweddol yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae 29% o’r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn uwch na’r ffigwr cenedlaethol. Mae 25% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ond nid oes un disgybl â datganiad. Nid oes yr un plentyn wedi cael ei wahardd o’r ysgol.

Dengys asesiadau sylfaen ac asesiadau proffil plentyn bod cyrhaeddiad disgyblion wrth ddechrau yn yr ysgol yn is na’r disgwyl ar gyfer plant o’r oed hwn.

Saesneg yw prif iaith cartref y disgyblion. Daw un disgybl o gartref Cymraeg ei iaith a thua chwech o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg gan un rhiant. Mae naw disgybl (7.6%) yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Nant Caerau yn 2011-2012 yn £6,335. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £19,708 a'r lleiafswm yw £2,828. Mae Ysgol Gymraeg Nant Caerau yn y pumed safle o'r 116 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Dyma arolygiad cyntaf yr ysgol gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau cyrhaeddiad disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau gwaith yn gyson dda;
- disgyblion yn gwneud cynnydd cystal â, neu well na'r disgwyl;
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus mewn Cymraeg o oed cynnar, er bod bron pob un ohonynt yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf;
- y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel; a bod
- ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn;
- gweledigaeth glir arweinwyr yr ysgol yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r holl staff a'r rhieni;
- yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr wedi gweithredu'n effeithiol iawn i osod yr ysgol ar seiliau cadarn ers ei sefydlu;
- yr ysgol wedi llwyddo i adnabod diffygion a chodi safonau mewn meysydd penodol; a bod
- blaenoriaethau priodol ar gyfer sicrhau gwelliant yn y cynllun datblygu ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 gynllunio i ddatblygu medrau allweddol mewn modd strwythuredig ar draws yr ysgol;

A2 sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn arwain at ddeilliannau arfarnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac yn arwain at bennu blaenoriaethau priodol ar gyfer y cynllun datblygu ysgol;

A3 datblygu dealltwriaeth y corff llywodraethol o berfformiad er mwyn herio'r ysgol yn fwy effeithiol; a

A4 sicrhau bod prosbectws yr ysgol yn ateb y gofynion statudol yn llawn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion uchod. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae safonau gwaith disgyblion yn eu llyfrau gwaith, ac yn ystod y sesiynau dysgu yn gymesur â'u hoed a'u gallu.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn weithgar yn ystod y sesiynau, ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau. Gallant drafod eu gwaith yn ddeallus ac, erbyn dechrau cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr cynyddol annibynnol sy'n medru llywio'u dysgu eu hunain yn fwyfwy effeithiol.

Er bod y disgyblion bron i gyd yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, maent bron i gyd, o oed cynnar, yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant sgwrsio'n glir a brwdfrydig am eu gwaith gan ddefnyddio geirfa briodol. Fel arfer, byddant yn dewis sgwrsio'n Gymraeg gyda'u ffrindiau mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol. Erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 2, gall y mwyafrif ohonynt ddarllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol, mynegi barn amdanynt, a defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol i gaffael gwybodaeth ar gyfer eu gwaith mewn pynciau gwahanol. Maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn Cymraeg a Saesneg ar draws ystod y pynciau.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer, ac yn cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau eu dosbarthiadau.

Dim ond canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 am ddwy flynedd sydd ar gael. Roedd y carfannau o ddisgyblion yn isel yn ystod y ddwy flynedd, ac anodd yw dod i gasgliadau ystyrlon yn seiliedig ar y canlyniadau. Yn ystod y ddwy flynedd, roedd un disgybl yn cynrychioli 12.5% o'r garfan.

Dengys asesiadau sylfaen bod cyraeddiadau disgyblion ar y cyfan yn is na'r hyn a ddisgwylir o blant o'u hoed wrth iddynt ddechrau'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, dengys systemau tracio'r ysgol bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cystal â, neu well na'r disgwyl.

Mae asesiadau athro ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn dangos bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn ym mlynyddoedd cyntaf cyfnod allweddol 2, gan ragori ar amcangyfrif yn seiliedig ar asesiadau athro diwedd cyfnod allweddol 1.

**Lles:  Da**

Drwy themâu dosbarth, mae dealltwriaeth disgyblion am fyw a chadw'n iach yn datblygu'n briodol.  Er enghraifft o hyn yw'r modd y mae nifer o ddisgyblion yn medru trafod cynnwys maethlon eu bocsys bwyd yn ddeallus.

Mae ymddygiad y disgyblion yn gyson dda yn y gwersi ac wrth gyd-chwarae ar y buarth, gan rannu adnoddau a dangos parch a gofal am ei gilydd.

Mae presenoldeb y disgyblion yn gosod yr ysgol ym mhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail canran disgyblion sydd â hawl i brydau am ddim.

Mae bron bob un o'r plant yn ymateb yn dda yn y gwersi ac yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu.  Yn gyffredinol, maent yn dal ati i gwblhau eu tasgau gydag annibyniaeth gynyddol.  Mae eu medrau meddwl a datrys problemau'n datblygu'n effeithiol, ac mae hyn yn dechrau cael effaith ar fywyd ehangach yr ysgol trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.

Mae cysylltiadau cymunedol da yn dechrau datblygu, gyda'r ysgol yn dechrau cynnal cyngherddau cyhoeddus ac ymweld â chanolfan henoed gyfagos.  Mae gwaith y cyngor ysgol yn dechrau cael dylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol i'w holl ddisgyblion.  Mae cynllunio a threfnu manwl a dychmygus ar draws yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cael profiad o ystod o feysydd dysgu a phynciau.  Mae gweithgareddau perthnasol yn darparu cyfleoedd eang i ddisgyblion ddefnyddio medrau ac i atgyfnerthu'r dysgu.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus a chyson i ddatblygu'r medrau allweddol mewn ffordd strwythuredig ar draws yr ysgol.

Mae darpariaeth briodol i alluogi'r disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang trwy waith thematig, er enghraifft gwaith ar gwpan rygbi'r byd a'r gemau Olympaidd.  Mae cyswllt gydag ysgolion ar draws y byd trwy gyfrwng technoleg gwybodaeth a chyfathrebu hefyd yn dechrau cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o'r agwedd hon.

Trwy gyfrwng y pwyllgor eco, mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth annog disgyblion i arbed ynni ac ailgylchu.  Mae lle amlwg i'r gweithgarwch hwn yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn greiddiol i'r cwricwlwm.  Mae ymweliadau tymhorol â mannau megis amgueddfa werin Sain Ffagan yn sicrhau dealltwriaeth o'r diwylliant lleol a chenedlaethol.

**Addysgu:  Da**

Mae'r addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol ac yn sicrhau cymhelliant i'r disgyblion ymroi i ddysgu.  Mae gan athrawon a chynorthwywyr wybodaeth bynciol

gadarn ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau a gweithgareddau i ysbrydoli a herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae pob un o'r athrawon wedi sefydlu perthynas dda gyda'r disgyblion, sy'n meithrin dysgu effeithiol.

Mewn sesiynau dysgu, mae athrawon yn gwahaniaethu'n effeithiol iawn, yn cwestiynu'n dreiddgar i hybu dysgu disgyblion, ac yn defnyddio adnoddau'n fedrus a dychmygus i gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae cyflymder yr addysgu yn dda, trefniadaeth dosbarth yn gadarn, ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel.

Mae gweithdrefnau asesu cadarn a rheolaidd yn eu lle, a chaiff y deilliannau eu defnyddio'n effeithiol i adnabod anghenion disgyblion, a darparu gweithgareddau ar eu cyfer. Derbynia'r disgyblion adborth llafar adeiladol ar eu hymdrechion. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ond nid yw'r sylwadau bob tro yn gwneud digon i ddangos i'r disgyblion yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r dull trwyadl o dracio cynnydd a lles disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae technegau asesu ar gyfer dysgu priodol ar waith yn y dosbarthiadau ac yn cyfrannu'n bositif at gynnydd disgyblion a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau a gwybodaeth cynhwysfawr i rieni am gyflawniadau a datblygiad eu plant. Mae cyfleoedd priodol i rieni gyfrannu a rhannu barn ynglŷn â chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhaliol sy'n meithrin gwerthoedd megis tegwch a pharch. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae gweithdrefnau trwyadl a llwyddiannus yn sicrhau bod y disgyblion yn meithrin hunan-barch ac yn teimlo'n ddiogel yng nghymuned yr ysgol. Dyma un o gryfderau'r ysgol. Mae systemau cynhwysfawr sy'n sicrhau darpariaeth drwyadl ar gyfer anghenion bob plentyn.

Caiff cymorth a chefnogaeth ei ffocysu'n dda ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn sicrhau ymyrraeth fuan ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion uwch eu gallu. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i gefnogi'r ddarpariaeth hon.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Rhydd yr ysgol sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion. Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a diwylliannol yn llwyddiannus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn creu ethos positif o ansawdd uchel. Mae parch yn treiddio drwy'r ysgol gyfan ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau ymddygiad y disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn ac mae pob plentyn yn cael cyfle cyfartal er mwyn cymryd rhan yn ei gweithgareddau. Mae prosesau cadarn yn eu lle i sicrhau ymddygiad da.
Yn ystod y ddwy flynedd ers ei sefydlu, mae'r ysgol wedi targedu cyllid yn effeithiol i sicrhau ystod o adnoddau pwrpasol i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Yn gyffredinol, mae arddangosfeydd deniadol yn y dosbarthiadau a'r cynteddoedd sy'n dathlu gwaith disgyblion ac yn symbylu dysgu.

Mae'r adeilad yn hygyrch i bob disgybl ac ymwelydd a chaiff ei gynnal a'i gadw i safon uchel. Mae'n darparu amgylchedd dysgu ac addysgu priodol ar gyfer disgyblion ac athrawon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Ers i'r pennaeth gael ei benodi i arwain yr ysgol newydd ym Medi 2010, mae wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir i staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae'r weledigaeth honno'n ffocysu'n glir ar ddatblygu ysgol sydd ag ethos Cymreig cynhwysol, sy'n mynnu safonau uchel. Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn ei harwain yn effeithiol gyda chymorth yr uwch dîm rheoli. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni'n gydwybodol.

Mae'r tîm rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer twf yr ysgol yn ystod y tair blynedd nesaf. Maent wedi llwyddo i sicrhau gwelliant mewn safonau cyflawniad disgyblion mewn meysydd penodol. Er enghraifft, dengys cofnodion bod cynnydd arwyddocaol mewn safonau darllen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae safonau ysgrifennu yn gwella hefyd.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol sy'n helpu'r staff addysgu a'r cynorthwywyr dosbarth i wella eu harferion.

Yn y cyfnod byr ers eu penodi, mae'r llywodraethwyr wedi datblygu ymwybyddiaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, ac maent yn ymrwymedig i'w llwyddiant. Mae rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol sy'n herio'r ysgol yn dechrau datblygu. Fodd bynnag, nid yw eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg wedi ei datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac mae asesu ar gyfer dysgu yn gwreiddio'n dda drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu yn gadarn a defnyddiol, ac yn cynnwys barn y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Mae'n rhoi sylw priodol i ddadansoddi data, a pheth tystiolaeth sy'n deillio o fonitro gwersi. O ganlyniad, mae'r broses yn llwyddo i adnabod cryfderau'r ysgol a rhoi darlun clir o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn crynhoi deilliannau'r broses ond, er ei fod yn cydnabod cryfderau'r ysgol, mae tuedd iddo fod yn rhy ddisgrifiadol.

Ar y cyfan, mae cynllun datblygu'r ysgol o ansawdd da ond nid yw'r cysylltiad rhyngddo a'r adroddiad hunanarfarnu wrth bennu targedau yn glir ym mhob maes. Mae'n nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant, ac yn cynnwys targedau meintiol, amserlen weithredu ynghyd âr meini prawf llwyddiant addas. Nid yw'n defnyddio'r dystiolaeth o'r broses hunanarfarnu'n ddigon trylwyr i bennu targedau penodol ar gyfer gwelliant.

Mae'r athrawon yn perthyn i nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol a chymunedau dysgu i ddatblygu medrau llythrennedd. Mae'r rhwydweithiau hyn yn dechrau dylanwadu'n bositif ar y ddarpariaeth ac ar gyflawniad y disgyblion. Er enghraifft, ers sefydlu'r ysgol ym Medi 2010, mae'r ysgol wedi llwyddo i gydnabod llythrennedd fel maes penodol i'w ddatblygu ac mae'r holl ymyraethau a strategaethau sydd wedi eu gweithredu wedi sicrhau cynnydd cadarn yng nghyrhaeddiad y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaethau.

Mae cysylltiadau cadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni, er nad yw llawlyfr yr ysgol yn cyfarfod â'r gofynion statudol yn llawn.

Menter fuddiol yn ddiweddar oedd darparu cyfleoedd i'r rhieni fod yn rhan o addysg eu plant trwy gydweithio â hwy yn y dosbarth. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar fedrau darllen a hyder y disgyblion. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i fywyd yr ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol drwy weithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Mae gan yr ysgol gyswllt da gyda'r gymuned. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o ymweliadau oddi ar safle'r ysgol ynghyd â chroesawu ymwelwyr i'r ysgol i siarad am eu gwaith.

Mae trefniadau llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol, ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd leol. Er na fydd disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol uwchradd am ddwy flynedd arall, trefnir gweithgareddau cyson rhwng disgyblion yr ysgol ac Ysgol Plas Mawr i hyrwyddo pontio effeithiol. Mae athrawon y ddau sector yn trefnu hyfforddiant ar y cyd er mwyn rhannu gwybodaeth ac arfer dda. Mae'r athrawon hefyd yn elwa'n fawr o'r bartneriaeth hon.

Mae'r ysgol yn gweithio'n helaeth gyda swyddogion yr awdurdod lleol godi safonau llythrennedd a phresenoldeb. Sefydlwyd partneriaeth gadarn iawn rhwng yr ysgol ac asiantaethau gwirfoddol i hyrwyddo lles a hunan-barch y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm. Caiff hyfforddiant ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol a'r cynllun datblygu'r ysgol. Defnyddia'r ysgol y cynorthwywyr dosbarth yn effeithiol i gefnogi'r dysgu ac i roi cefnogaeth dda i garfannau o ddisgyblion mewn sawl maes.

Defnyddir amser cynllunio paratoi ac asesu'n effeithiol i dracio a monitro cynnydd disgyblion.
Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r cyllid, y safle ac adnoddau'r ysgol yn effeithiol ac yn adolygu'r gwariant yn rheolaidd ar y cyd â swyddog cyllid yr awdurdod. Mae'r pennaeth wedi blaengynllunio'n ofalus ar gyfer y dyfodol, gan wneud defnydd da o weithdrefnau cynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Oherwydd y nifer bychan o ddisgyblion yn y carfannau yn ystod y ddwy flynedd, nid oes modd gwneud dadansoddiad ystyrlon o dueddiadau.

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau dros y cyfnod hwnnw ar gyfer y lefel ddisgwyliedig (lefel 2 neu uwch) yn agos at, neu'n is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac yn gyson is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrth gymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, roedd yr ysgol ymhlith y 50% isaf yn 2010 ac ymhlith y 25% isaf yn 2011.

Mae'r canlyniadau ar gyfer disgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch (lefel 3 neu uwch) ym mhob pwnc craidd yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i holiaduron disgyblion

Derbyniwyd 17 o ymatebion, sef disgyblion cyfnod allweddol 2 i gyd. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws ysgolion cynradd Cymru gyfan.

Mae pob disgybl yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, ac nad oedd ymddygiad disgyblion eraill yn amharu ar eu gwaith, a'r rhan fwyaf yn dweud bod ganddynt ddigon o offer ac adnoddau i wneud eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn meddwl bod gwaith cartref yn eu helpu i adeiladu ar waith dosbarth, ac yn credu bod disgyblion yn gyffredinol yn ymddwyn yn dda amser chwarae a chinio.

### Ymatebion i holiaduron rhieni

Derbyniwyd ymatebion gan 19 o rieni, gyda bron pob un yn gadarnhaol, ac yn rhoi proffil tebyg i'r darlun yn genedlaethol.

Mae bron pob un yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol ac yn credu ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Cred bob rhiant bod ymddygiad plant a phrosesau'r ysgol i gefnogi a chynnal disgyblion yn dda.

Mae rhai rhieni'n teimlo nad yw'r ysgol yn hannog eu plant i fyw a bwyta'n iach. Mae rhai hefyd o'r farn nad ydynt yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol i wneud awgrym neu i gwyno, na chwaith yn deall trefn yr ysgol i ddelio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Judith Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dylan Hughes | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.